Community Housing Cymru

# Etholiad Cyffredinol 2024: Cymharu Maniffestos y Pleidiau

## Mehefin 2024

Ar 22 Mai galwodd y Prif Weinidog, Rishi Sunak Etholiad ar gyfer dydd Iau 4 Gorffennaf. Yn ystod yr wythnos ddiwethaf mae'r rhan fwyaf o'r pleidiau wedi rhyddhau eu maniffestos. Mae'r nodyn briffio hwn yn crynhoi'r cynigion sydd fwyaf perthnasol i gymdeithasau tai yn ogystal â dynodi'r mannau lle gall polisïau fod â'r potensial i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i denantiaid tai cymdeithasol sy'n byw yng Nghymru.

### Penawdau allweddol a dadansoddiad

- Mae gan y rhan fwyaf o bleidiau ymrwymiadau i gynyddu'r gwariant yng Nghymru. Mae maniffesto'r ceidwadwyr yn rhoi addewid y byddant yn ehangu'r rhaglen ffyniant bro ac mae'r blaid lafur wedi rhoi gwarant y bydd yn ymdrin â phryderon am y grant bloc. Mae'n bwysig i'r llywodraeth nesaf gyflawni'r ymrwymiadau yma a sicrhau bod Cymru yn cael ei hariannu'n deg a bod ganddi ddigon o adnoddau i daclo'r heriau a wynebir ar hyn o bryd gan gynnwys argyfwng digartrefedd a thai difrifol.
- O ran Lles, mae maniffesto'r ceidwadwyr yn atgyfnerthu eu huchelgais i dorri costau a rheoli'r nifer o bobl o oedran gwaith sy'n dibynnu ar fudd-daliadau. Nid yw maniffesto llafur yn crybwyll adolygu'r wladwriaeth les yn benodol ond, trwy gydol eu hymgyrchu mae llafur wedi mynegi ymrwymiad i adolygu'r system les. Maen nhw wedi mynegi nad oes ganddynt unrhyw fwriad i gael gwared ar y cap dau blentyn ar fudd-daliadau. Mae ein hargymhellion i lywodraeth nesaf y Deyrnas Gyfunol yn glir bod raid adolygu credyd cynhwysol i sicrhau ei fod yn gweithio i denantiaid a landlordiaid ac ystyried peirianweithiau sy'n cyfyngu ar incwm aelwydydd fel y cap ar fudd-daliadau.

- Er na fydd y polisïau tai a amlinellir yn y maniffestos yma yn ymwneud yn uniongyrchol â Chymru mae'n bwysig ein bod yn cynnal tai cymdeithasol fel blaenoriaeth ar draws y Deyrnas Gyfunol i gyd. Yn eu maniffestos mae'r holl bleidiau gwleidyddol wedi cydnabod pwysigrwydd darparu mwy o gartrefi o safon uchel ac mae'r rhan fwyaf wedi cydnabod yr argyfwng tai sy'n parhau. Am gymhariaeth lawn o'r maniffestos, edrychwch ar yr atodiadau.

## Camau Nesaf

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn cynyddu proffil y rhan y gall Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ei chwarae o ran y ffordd y mae pobl yn byw'n dda yn eu cartrefi yng Nghymru, gyda ffocws neilltuol ar bolisi lles ac ynni. Rydym yn galw am, a byddwn yn parhau i ddylanwadu ar lywodraeth y Deyrnas Gyfunol i gyflawni:

- Dull holistig o roi cymorth lles sy'n atal digartrefedd ac yn cefnogi mynediad i'r farchnad tai ar rent.
- Diwygio Credyd Cynhwysol i sicrhau bod yr hawlwyr yn gallu talu am yr hanfodion sylfaenol o leiaf a gwelliannau i'r system i hawlwyr a chymdeithasau tai.
- System ynni sy'n diogelu aelwydydd incwm isel
- Cymhelliant ariannol ac ymrwymiad y llywodraeth i gefnogi'r sector i gyflawni nodau sero net

Gellir gweld nodyn briffio yn amlinellu ein gofynion etholiadol yn llawn yma. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad costau byw yn fuan sy'n rhoi tystiolaeth bwysig i gefnogi ein blaenoriaethau.

Rydym hefyd yn ymwneud â Homes for All Cymru a'n chwaer ffederasiynau i ddefnyddio ein llais ar y cyd i gryfhau'r galwadau hyn.

*Am ragor o wybodaeth neu i drafod y nodyn briffio hwn, cysylltwch â [bethany-howells@chcymru.org.uk](mailto:bethany-howells@chcymru.org.uk) neu [bethan-proctor@chcymru.org.uk](mailto:bethan-proctor@chcymru.org.uk)*

## Atodiadau

| **Polisïau penodol i Gymru a datganoli pellach** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ceidwadwyr** | **Llafur** | **Plaid Cymru** | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Reform** | **Y Blaid Werdd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| • Gweithio gyda llywodraeth Cymru i ehangu eu rhaglen ffyniant bro.<br>• Ymrwymiad i drydaneiddio Prif Reilffordd Gogledd Cymru a gwyrdroi'r cyfyngiad cyflymder 20mya.<br>• Addewid i gryfhau gwasanaethau cyhoeddus Cymru trwy roi swyddog heddlu ychwanegol ym mhob cymuned yng Nghymru a gwella'r gallu i ryngweithredu rhwng y GIG mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Gyfunol. | • Ystyried datganoli pellach yn benodol am gyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf.<br>• Ymdrin â phryderon am y ffordd y mae'r system yn dyrannu grantiau bloc i Gymru. | • Mynnu system gyllido deg i Gymru ac adfer y £4m sy'n ddyledus i Gymru o HS2.<br>• Cynyddu lefel y datganoli yn benodol yn ymwneud â deddfau trethu a lles. | • Cadw'r fformiwla Barnett ond sicrhau bod cyllido i Gymru yn deg ac ar lefel sy'n cefnogi Cymru i ffynnu.<br>• Cynyddu lefel datganoli yng Nghymru yn benodol o ran Rheilffyrdd a Chyfiawnder. | • Diwygio cynllunio gyda phwyslais penodol ar ardaloedd arfordirol yng Nghymru.<br>• Buddsoddi yn seilwaith trafnidiaeth Cymru. | • Cymru i gael yr un pwerau datganoledig â'r Alban cyn unrhyw setliad cyfansoddiadol.<br>• Cefnogi'r Senedd os bydd yn penderfynu cynnal refferendwm annibyniaeth.<br>• Cynyddu'r gwariant yng Nghymru ar swyddogaethau datganoledig. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

| Tai | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ceidwadwyr** | **Llafur** | **Plaid Cymru** | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Reform** | **Y Blaid Werdd** |
| • 1.6 miliwn yn fwy o gartrefi da gan ddiogelu ein cefn gwlad.<br>• Pecyn o gefnogaeth i berchenogion tai yn cynnwys; rhyddhad o dreth stamp i brynwyr am y tro cyntaf, blaendal 5% ac yn y blaen.<br>• Deddfwriaeth i droi tenantiaid tai cymdeithasol allan sy'n | • Pwyslais ar leihau rhwystrau cynllunio a darparu 1.5m o gartrefi cyn pen pum mlynedd.<br>• Ymrwymiad i gael gwared ar droi allan dan 'heb fai' Adran 21 ar 'ddiwrnod cyntaf' llywodraeth newydd.<br>• Ymrwymiad i ddarparu'r nifer fwyaf o dai cymdeithasol mewn cenhedlaeth | • Cyflwyno Bil Hawl i Dai Digonol (Cymru) yn y Senedd, a fyddai'n cynnwys pwerau i gyflwyno rheolaeth rhent ac ymyraethau marchnad eraill i "wneud tai yn fwy fforddiadwy".<br>• Diwygiadau cynllunio i'w gwneud yn haws i adeiladu tai | • 380,000 o gartrefi newydd gan gynnwys 150,000 o dai cymdeithasol ar draws y Deyrnas Gyfunol.<br>• Gwneud tenantiaethau tair blynedd yn ddiofyn a gwahardd troi allan heb fai. | • Mae eu maniffesto yn cyfeirio'n benodol at argyfwng tai.<br>• Maen nhw yn ymrwymo i ddiwygio cyfraith tai cymdeithasol i wneud newidiadau i'r system ddyrannu sy'n 'rhoi blaenoriaeth i bobl leol'.<br>• Adolygu'r system gynllunio.<br>• Dileu'r Mesur | • Ymrwymiad i ddarparu 'cartrefi tecach, gwyrddach i bawb'<br>• Addewid i ddarparu 150,000 o dai cymdeithasol newydd y flwyddyn ac i ddod â 'hawl i brynu' i ben.<br>• Deddfu i ddod â throi allan heb fai i ben<br>• Trawsnewid cynllunio. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| amharu ar eu cymdogion fel rhan o'u cynlluniau ehangach i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol. | trwy wneud newidiadau i gynllunio i sicrhau bod tai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu fel rhan o bob datblygiad, gan wneud newidiadau i'r Rhaglen Tai Fforddiadwy.<br>• Rhoi blaenoriaeth i adeiladu cartrefi cymdeithasol ar rent newydd ac adolygu'r disgownt hawl i brynu uwch a gyflwynwyd yn 2012 a chynyddu diogeliad ar dai cymdeithasol newydd eu hadeiladu.<br>• Datblygu strategaeth | cymdeithasol.<br>• Cynyddu graddfa'r model Tai yn Gyntaf er mwyn taclo digartrefedd. | | diwygio i Rentwyr.<br>• Rhoi cymhelliant i ddefnyddio technoleg newydd wrth adeiladu tai.<br>• Dileu Adran 24 i landlordiaid i annog landlordiaid llai i'r farchnad tai ar rent. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ddigartrefedd newydd | | | | |

| Lles | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ceidwadwyr** | **Llafur** | **Plaid Cymru** | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Reform** | **Y Blaid Werdd** |
| • Diwygio budd-daliadau anabledd i fod wedi eu targedu'n fwy manwl, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer budd-daliadau iechyd meddwl.<br>• Archwilio gwasanaethau trin yn lle taliadau arian parod ar gyfer budd-daliadau iechyd meddwl.<br>• Cyflwyno cosbau i bobl sy'n gwrthod | • Nid yw diwygiadau lles yn cael eu crybwyll yn glir ym maniffesto llafur. Ond, yn y gorffennol mae Llafur wedi rhoi addewid y byddant yn adolygu peirianweithiau sy'n cyfyngu ar incwm aelwydydd fel y 'dreth ystafelloedd gwely'.<br>• Nid yw maniffesto llafur yn rhoi addewid y | • Cynyddu budd-dâl plant o £20 yr wythnos i godi 60,000 o blant Cymru allan o dlodi<br>• Creu system Fudd-daliadau i Gymru a datganoli budd-daliadau sydd â'r cysylltiad agosaf â meysydd polisi sydd wedi eu datganoli'n barod. Cefnogi cynllun treialu incwm | • Cael gwared ar y cyfyngiad dau blentyn a'r cap budd-daliadau i daclo tlodi plant. | • Pwyslais ar 'wneud i waith dalu' gydag ymrwymiad i godi'r trothwy treth incwm i £20,000.<br>• Cyflwyno rheol dau gyfle i'r rhai sy'n chwilio am waith.<br>• Gorfodi apwyntiadau wyneb yn wyneb i gael budd-daliadau. | • Dileu'r cap budd-daliadau dau blentyn.<br>• Cynyddu Credyd Cynhwysol a budd-daliadau'r gorffennol o £40 yr wythnos.<br>• Cynyddu Lwfans Gofalwyr o 10% y mis o leiaf.<br>• Cyflwyno Incwm Sylfaenol Cyffredinol.<br>• Cynyddu budd-daliadau anabledd o 5%<br>• Gwrthwynebu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| cymryd swyddi addas ar ôl 12 mis o fudd-daliadau. | byddant yn dileu'r cyfyngiad dau blentyn. | sylfaenol cynhwysol yng Nghymru. | | | cynlluniau i gyfnewid PIP gyda 'thalebau'. |

| **Gofal Cymdeithasol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ceidwadwyr** | **Llafur** | **Plaid Cymru** | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Reform** | **Y Blaid Werdd** |
| • Cyflwyno cap ar gostau gofal cymdeithasol o Hydref 2025.<br>• Setliad ariannu aml-flwyddyn i gefnogi diwygiadau i ofal cymdeithasol. | • Cytundeb cyflog teg i weithwyr gofal cymdeithasol ac ymrwymiad i weithio tuag at Wasanaeth Gofal Cenedlaethol i helpu pobl i fyw'n annibynnol gartref am fwy o amser. | • Parhau i weithio i symud uchelgais y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yng Nghymru. | • Ymrwymiad i gael 'gwell cyflog' i weithwyr gofal a gwell cefnogaeth i ofalwyr di-dâl.<br>• Addewid i weithio gyda'n pleidiau i wneud cynllun ar gyfer gwell system ofal cymdeithasol. | • Datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol sy'n gynaliadwy trwy symleiddio'r ffrydiau ariannu. | • Gofal personol am ddim i bobl yn eu henaint a phobl anabl<br>• Cyfraddau cyflog uwch a strwythur gyrfa i ofalwyr<br>• Buddsoddiad o £20bn y flwyddyn. |

**Darllen Pellach**

**Manifestos**

- Ceidwadwyr
- Llafur
- Plaid Cymru
- Democratiaid Rhyddfrydol
- Reform
- Y Blaid Werdd